**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher 28 Mehefin 2023 (10:30 – 2.40) Coleg Merthyr Tudful**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwyr:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd)<br>Ann Beynon<br>William Callaway<br>Nia Elias<br>Rhys Evans<br>John Hayes<br>Meri Huws<br>Yr Athro Anwen Jones<br>Llinos Roberts |
| **Cyflwyniad:** | Karen Morgan a Zenny Saunders (Llywodraeth Cymru) (Eitem 3) |
| **Sylwedydd:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) (Eitem 3 a'r cyfarfod llawn) |
| **Yn bresennol:** | Rhian Huws Williams (Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant) (Eitemau 12 a 13) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr)<br>Gwenllian Griffiths (Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu)<br>Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd)<br>Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd)<br>Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant)<br>Rebecca Williams (Rheolwr Academaidd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Pedr ap Llwyd, Angharad Roberts, Yr Athro Enlli Thomas, Dr Cliona O'Neill, Deio Owen |

**Cofnodion Cyfarfod 28 Mehefin 2023 – caeëdig**

## 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |

## 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o’r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |

## 3. Eitem 3 – Cyflwyniad Swyddogion Llywodraeth Cymru ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Rhoddwyd cyflwyniad gan Karen Morgan a Zenny Saunders, Swyddogion Llywodraeth Cymru, ar y trefniadau ar gyfer sefydlu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. | | |
| 3.2 | Yn dilyn ymateb i nifer o gwestiynau ymadawodd Swyddogion Llywodraeth Cymru. | | |

## 4. Eitem 4 – Trafodaeth ar y camau nesaf mewn perthynas â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Cafwyd trafodaeth lawn ar y camau nesaf mewn perthynas â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. | | |
| 4.2 | Awdurdodwyd y Prif Weithredwr a'r swyddogion i:<br>• weithio gyda chyfreithwyr y Coleg i ddatblygu Memorandwm o Ddealltwriaeth i'w gytuno gan y Bwrdd cyn ei gyflwyno at sylw'r Comisiwn<br>• caffael arweiniad ar ffurf cyngor cychwynnol i'w ddrafftio a'i gyflwyno at sylw'r Comisiwn erbyn Ebrill 2024<br>• rhoi trefniadau ar waith i weithio'n greadigol gyda'r Comisiwn a'i swyddogion yn ystod y cyfnod trosiannol | Rhoi'r camau gweithredu ar waith | Cyn Tachwedd 2023 |
| 4.3 | Er mwyn i'r Bwrdd gymeradwyo rhai materion a phenderfyniadau cyn y cyfarfod nesaf ar 22 Tachwedd 2023 cytunwyd y gellid galw cyfarfod arbennig o'r Bwrdd a hynny ar ffurf rhithiol. | Trefnu cyfarfod rhithiol o'r Bwrdd petai angen | Cyn Tachwedd 2023 |
| 4.4 | * Yn ddiweddarach yn y cyfarfod llawn crybwyllwyd hygrededd y Coleg i gynghori'r Comisiwn yng nghyd-destun holl arbenigeddau cymuned a rhanddeiliaid y Coleg. | | |

## 5. Eitem 5 – Ymateb y Coleg i’r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar y Bil Addysg Gymraeg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
| --- | --- | --- | --- |
| 5.1 | Rhoddwyd diweddariad llafar gan y Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu ar ymateb y Coleg i’r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar y Bil Addysg Gymraeg. | | |
| 5.2 | Adroddwyd y cylchredwyd y Papur Gwyn i’r Bwrdd ar 27 Mawrth 2023. | | |
| 5.3 | Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn ymateb y Coleg i’r ymgynghoriad. Disgwylir cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad yn nhymor yr hydref 2023. | | |
| 5.4 | * Yn ddiweddarach yn y cyfarfod llawn adroddodd Alan Jones y bydd y Bil Addysg Gymraeg yn cael ei gyhoeddi erbyn toriad haf 2024. | | |

## 6. Eitem 6 – Addysg Gychwynnol Athrawon

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
| --- | --- | --- | --- |
| 6.1 | Cyflwynwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar Addysg Gychwynnol Athrawon a’r berthynas rhwng y Coleg a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. | | |
| 6.2 | Nodwyd yr adroddiad a gylchredwyd a’r prif bwyntiau:<br>• a oedd yn ystyried rôl a chyfrifoldebau’r Coleg ym maes Addysg Gychwynnol Athrawon | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • cynllunio gweithlu yng nghyd-destun cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru<br>• pryderon y Coleg am y diffyg cysondeb rhwng y weledigaeth a'r gweithredu presennol | | |
| 6.3 | Adroddwyd ar y camau i ddrafftio Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. | | |
| 6.4 | Yn dilyn trafodaeth lawn argymhellwyd<br>• gwahodd Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg i gyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr<br>• darparu data recriwtio Medi 2023 | Gwahodd swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd<br><br>Data recriwtio Medi 2023 | 2023/24<br><br>2023/24 |

**Cofnodion Cyfarfod 28 Mehefin 2023 – cyfarfod llawn**

## 7. Eitem 7 - Cofnodion 22 Mawrth 2023

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023. | | |

## 8. Eitem 8 – Materion yn codi

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | **Y Gofrestr Buddiannau** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd bod y Gofrestr Buddiannau wedi ei diweddaru. | | |
| 8.2 | **Hyfforddiant diogelwch seibr**<br>Adroddwyd y gohiriwyd hyfforddiant diogelwch seibr a drefnwyd ar gyfer 5 Gorffennaf gan ei fod yn cyd-daro â dyddiad angladd un o gymrodyr y Coleg. | | |

## 9. Eitem 9 – Cofnodion cyfarfod strategol 17 Mai 2023

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023. | | |

## 10. Eitem 11 – Materion y Cadeirydd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | Adroddodd y Cadeirydd bod proses adolygu perfformiad y Prif Weithredwr wedi ei chwblhau. | | |
| 10.2 | Adroddodd ar Gynhadledd Addysg Uwch ac Addysg Bellach y Coleg ar 18 Mai 2023. | | |
| 10.3 | Adroddodd ar ymweliadau i Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Caerdydd. | | |
| 10.4 | Adroddodd ar Noson Wobrau'r Coleg ar 13 Mehefin 2023. | | |

**11. Eitem 12 – Adroddiad y Prif Weithredwr**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn ail ymunodd Alan Jones ac ymunodd Rhian Huws Williams yn y cyfarfod. | | |
| 11.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. | | |
| 11.2 | **Prif ddatblygiadau strategol**<br>Adroddwyd ar y cynllun gwaith tair blynedd i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd. Blaenoriaethau'r cynllun gwaith fydd sefydlu'r berthynas gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, oblygiadau'r Bil Addysg Gymraeg (a drafodwyd yn y cyfarfod caeëdig), a pharatoi cynigion ar gyfer gweithgareddau a chyllideb y Coleg tu hwnt i dymor y Senedd bresennol.<br>Nodwyd y bwriedir gohirio'r gwaith o ddatblygu cynllun strategol newydd tan 2026. | Cynllun gwaith tair blynedd | 22 Tachwedd 2023 |
| 11.3 | **Cyllideb y Coleg 2023/24 - Llythyr Grant Llywodraeth Cymru**<br>Adroddwyd bod cyllideb y Coleg ar gyfer 2023/24 wedi'i chadarnhau yn Llythyr Grant Llywodraeth Cymru a gylchredwyd i'r Bwrdd ar 21 Ebrill 2023. | | |
| 11.4 | **Adroddiad monitro Llywodraeth Cymru**<br>Nodwyd yr adroddiad monitro (Mawrth 2023) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill.<br>Adroddwyd y bydd yr adroddiad monitro nesaf yn cael ei gyflwyno cyn yr Eisteddfod. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.5 | **Addysg Uwch - Premiwm Cymraeg**<br>Adroddwyd ar gylchlythyr CCAUC, yn cyflwyno adroddiad *London Economics,* ac yn sefydlu'r egwyddor fod angen premiwm ychwanegol i gydnabod costau uwch darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gynorthwyo cynaladwyedd y ddarpariaeth. Bydd y premiwm yn cael ei ymestyn cyn y bydd y Comisiwn newydd yn llawn weithredol ac yn rhan o'r model y bydd yn etifeddu oddi wrth CCAUC. Bydd y Coleg yn rhoi blaenoriaeth i gynghori'r Comisiwn ar yr angen i osod cyllideb addas ar gyfer y premiwm cyfrwng Cymraeg. Yn y cyfamser, bydd y Coleg yn gweithio gyda'r prifysgolion a CCAUC i sicrhau bod ffrydiau cyllido'r Coleg a'r cyllid premiwm yn cael eu defnyddio'n gydlynus. | | |
| 11.6 | **Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br>Adroddwyd ar y cydweithio gydag Estyn i gynnal adolygiad ar hyfforddiant.<br>Bydd adnodd VR ac AR Fferm Ddiogel yn cael ei lansio yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ar 26 Gorffennaf 2023. | | |
| 11.7 | **Cymraeg fel pwnc**<br>Comisiynwyd Iaith Cyf. i baratoi gwerthusiad o'r gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc a disgwylir yr adroddiad terfynol o fewn yr wythnosau nesaf. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.8 | **Taith gerdded staff i godi arian**<br>Adroddwyd ar daith gerdded y staff i Ben-y-fan ar 25 Mai 2023 i godi arian at Uned Gofal y Fron, Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli. | | |
| 11.9 | **Eisteddfod Genedlaethol 2023**<br>Adroddwyd y traddodir darlith flynyddol y Coleg gan yr Athro Jerry Hunter ac y cynhelir digwyddiad ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd derbyniad arferol y Coleg am 16:00 ar y prynhawn dydd Mercher. Bydd rhaglen gyflawn o weithgareddau'r Coleg yn yr Eisteddfod yn cael ei chyhoeddi yn ystod mis Gorffennaf. | | |

## 12. Eitem 13 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | Talwyd teyrnged i Denise Williams, Cymrawd er anrhydedd o'r Coleg ac aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, a fu farw'n ddiweddar. | | |
| 12.2 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 5 Mai 2023.<br>Adroddwyd y cafwyd trafodaeth ar gynnal gwerthusiad allanol o'r Bwrdd ac addasrwydd hynny yn ystod cyfnod o newid yng ngwaith y Coleg. Adroddwyd yr argymhellwyd mai nid nawr oedd yr amser i gynnal adolygiad o'r fath. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.3 | **Holiadur gwerthuso**<br>Cyflwynwyd adroddiad ar holiadur gwerthuso'r Bwrdd a'r cyfarwyddwyr gan Rhian Huws Williams, cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant.<br>Adroddwyd ar y canlyniadau cadarnhaol a chrybwyllwyd:<br>• y gellid derbyn cefnogaeth am rôl cyfarwyddwr wrth drafod gyda'r Cadeirydd yn y cyfarfodydd unigol a drefnir yn nhymor yr haf<br>• pwysigrwydd gweithio fel tîm<br>• cyd-destun adnoddau llywodraethiant y Coleg<br>Yn ystod y drafodaeth argymhellwyd ystyried:<br>• bod y Cadeirydd yn adrodd ar y cyfarfod i gyfarwyddwyr a oedd yn absennol<br>• ffurfioli proses bwydo nôl pwyllgorau<br>• trefnu diweddariadau anffurfiol rhwng cyfarfodydd<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |
| 12.4 | **Adroddiad blynyddol**<br>Cyflwynwyd adroddiad blynyddol gan Rhian Huws Williams, cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant.<br>Adroddwyd mai prif waith y pwyllgor eleni oedd:<br>• penodi aelodau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau<br>• mireinio prosesau llywodraethiant<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.5 | **Ail-benodi Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant**<br>Adroddwyd bod Rhian Huws Williams wedi cytuno, yn dilyn cymeradwyaeth y Cadeirydd, i ail dymor fel Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant o 1 Awst 2023. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Nia Elias a Rhian Huws Williams | | |

## 13. Dros ginio - Cyflwyniad gan Goleg Merthyr Tudful

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | Rhoddwyd cyflwyniad llafar ar hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngholeg Merthyr Tudful gan Lynwen Harrington, Swyddog Iaith/Safonau Cymraeg. | | |

## 14. Eitem 14 - Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023.<br>Adroddodd William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar:<br>• arbenigedd seibr ddiogelwch aelod allanol<br>• bod archwiliad mewnol ar seibr ddiogelwch ar y gweill | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.2 | **Adroddiad blynyddol**<br>Derbyniwyd adroddiad blynyddol y pwyllgor gan nodi presenoldeb pob aelod ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn. | | |

### 15. Eitem 15 - Y Gofrestr Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | **Y Gofrestr Risg**<br>Derbyniwyd y Gofrestr Risg a adolygwyd i gynnwys seibr ddiogelwch fel risg unigol.<br>Yn ystod y drafodaeth argymhellwyd diweddaru'r gofrestr i gynnwys perthynas y Coleg a'r Comisiwn newydd erbyn y cyfarfod nesaf. | Diweddaru'r Gofrestr Risg i gynnwys cyfeiriad at y Comisiwn newydd | 22 Tachwedd 2023 |
| 15.2 | Derbyniwyd y Gofrestr Risg. | | |

### 16. Eitem 16 - Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023. | | |
| 16.2 | **Cyllideb 2022/23**<br>Adroddwyd bod cyfrifon archwiliedig y Coleg yn cael eu paratoi gan yr Archwilwyr Allanol Bevan Buckland LLP. | | |

**17. Eitem 17 – Bwrdd Academaidd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023.<br>Cyflwynwyd crynodeb o’r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 10 Mai 2023, gan yr Ysgrifennydd:<br>Nododd:<br>• mai dyma oedd cyfarfod olaf Gwilym Dyfri Jones fel cadeirydd y Bwrdd Academaidd<br>• y cafwyd cyflwyniad gan y myfyrwyr ar eu cyfarfod gyda Chadeirydd y Coleg ar 24 Mawrth 2023<br>• y cafwyd cyflwyniad ar gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (gweler cofnod 11.5 uchod) a gofid adrannau Cymraeg y prifysgolion na fyddent yn elwa o’r premiwm | | |
| 17.2 | Cyflwynodd yr Ysgrifennydd grynodeb o adolygiad rôl, aelodaeth a ffurf cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd.<br>Nodwyd bod rôl bwysig gan y Bwrdd Academaidd i gynghori’r Coleg a’r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar faterion yn ymwneud ag addysg uwch.<br>Trafodwyd materion yn ymwneud â goblygiadau AI yn y Gymraeg; paneli pwnc; a llais y myfyriwr.<br>Adroddwyd y byddai’r cylch gorchwyl yn cael ei addasu i adlewyrchu’r argymhellion i’w cytuno yng nghyfarfod 11 Hydref 2023. Cyflwynir y fersiwn terfynol i’r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Tachwedd.<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | Addasu cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd | Erbyn 11 Hydref 2023 |

## 18. Eitem 18 – Bwrdd Strategol ôl-16

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 18.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol ôl-16 a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023.<br>Cyflwynwyd crynodeb o’r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 23 Mai 2023, gan Meri Huws, Cadeirydd y Bwrdd Strategol ôl-16:<br>Nododd:<br>• y cafwyd cyflwyniad i waith y partneriaethau sgiliau rhanbarthol<br>• y cafwyd astudiaeth achos gan Coleg Gŵyr Abertawe | | |

## 19. Eitem 19 – Unrhyw fater arall

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 19.1 | Adroddwyd y penodwyd Dr Gwennan Schiavone fel Prif Swyddog newydd CYDAG. | | |

## 20. Eitem 20 - Cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 20.1 | Nodwyd dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:<br>• 22 Tachwedd 2023, Caerfyrddin<br>• 20 Mawrth 2024, Bangor<br>• 3 Gorffennaf 2024, lleoliad i’w gadarnhau | | |
| 20.2 | Diolchwyd i gwmni Nico am gyfieithu ar y pryd. | | |